



Bwletin GwE

CYDWEITHIO

DYSGU

LLWYDDO



#Diolch



Rhannwch ein bwletin â thîm staff yr ysgol i gyd ac anogwch eich holl gyd-weithwyr i ymuno â'n [rhestr bostio](#).

RHAGLENNI CENEDLAETHOL

Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Cynorthwyrwyr Addysgu

CYFLWYNIAD I CWRICWLWM I GYMRU

Cynhelir dwy sesiwn ar-lein fel rhan o'r rhaglen, a gofynnir i chi fynychu'r ddwy sesiwn.

Ceir manylion pellach yn y Dosbarth Google ar gyfer Cynorthwyrwyr Addysgu.

Ffurflen Gofrestru: <https://forms.office.com/r/ijMRxs2ev>

Ar ôl cofrestru, cewch fanylion y cyfarfodydd TEAMS.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Wendy Williams wendywilliams@gwegogledd.cymru



SESIWN 1

09/05/2022	09:30-11:30
11/05/2022	15:00-17:00
12/05/2022	13:15-15:15

SESIWN 2

23/05/2022	13:15-15:15
25/05/2022	09:30-11:30
25/05/2022	15:00-17:00

Hyfforddiant Fframwaith Cymhwysedd Digidol ar gyfer ANGon

 Cymraeg	 17/05/2022	 09:30-11:30
 Saesneg	 20/05/2022	 09:30-11:30

Llogi lle drwy G6 i'r cyfarfod ar Zoom/Teams.



Bryn Eirias, Ffordd Abergele,
Bae Colwyn, LL29 8BY



0300 500 8087



Canolfan Cefnogaeth GwE



@GwEGogleddCymru



post@gwegogledd.cymru



www.gwegogledd.cymru



g6.gwegogledd.cymru



GwE Gogledd Cymru

NEWYDDION A GWYBODAETH GwE

Y Gymraeg

ER GWYBODAETH – Eicon Siarter Iaith ar Hwb

O hyn ymlaen mi fydd [eicon Siarter Iaith](#) yn ymddangos ar dudalen flaen [Hwb](#) felly bydd yn llawer haws i chi ddod o hyd i wybodaeth ac i'r holiaduron.



Siarter iaith

YN EISIAU: Cyfranogwyr i gwblhau holiadur fel rhan o brosiect ymchwil

I sylw athrawon uwchradd dwyieithog sy'n dysgu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog yng Nghymru i gyfrannu at brosiect ymchwil. [Cliciwch yma](#) am ragor o wybodaeth ac i gwblhau'r holiadur. Am fwy o wybodaeth am yr ymchwil, cysylltwch â Cadi Siôn (cadi.sion@bangor.ac.uk) neu Yr Athro Enlli Thomas (enlli.thomas@bangor.ac.uk)

Asesiadau Personol 2022

Negeseuon Rhanbarthol - Dechrau Tymor yr Haf 2022

[Cliciwch yma](#) am yr wybodaeth ddiweddaraf.



Datganiad Ysgrifenedig: Asesiadau Personol Rhifedd [Rhesymu]

Mae asesiad personol Rhifedd (Rhesymu) ar-lein newydd ar gael bellach, a fydd yn helpu i sicrhau safonau uchel ac uchelgeisiau i bawb. Hwn yw'r olaf yn y casgliad o asesiadau sydd ar gael i athrawon eu defnyddio fel y mynnant drwy'r flwyddyn, a hynny er mwyn cefnogi a llywio eu haddysgu a'r gwaith o gynllunio cynnydd mewn darllen a rhifedd. Manylion llawn ar gael [yma](#).

Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Hyfforddiant Pellach gan Mike Gershon - Mis Mai 2022

Yn dilyn poblogrwydd a llwyddiant sesiynau hyfforddiant Mike Gershon fis Mawrth eleni, bydd sesiynau pellach yn cael eu cynnal ym mis Mai. Wrth ddechrau gweithredu'r Ddeddfwriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol Newydd, rydym yn ymwybodol o bwysigrwydd Darpariaeth Gyffredinol Ragorol. Bydd y sesiynau hyn yn ddilyniant i'r sesiynau Gwahaniaethu a Sut i Ddefnyddio Trafodaeth – gellir cael mynediad at recordiad a sleidiau'r sesiynau hyn drwy glicio [yma](#).



Y ddwy sesiwn newydd fydd:

Sesiwn 1: Gwahaniaethu Siarad, Gwrando, Darllen ac Ysgrifennu ar gyfer Dysgwyr ADY mewn gwersi prif ffrwd

- 04/03/2022 09:00 – 12:00
- **NEU** 05/03/2022 09:00 – 12:00

Sesiwn 2: Meithrin Dyfalbarhad a Chymhelliant Dysgwyr ADY

- 09/03/2022 09:00 – 12:00
- **NEU** 10/03/2022 09:00 – 12:00

Cynhelir y ddwy sesiwn ddwywaith er mwyn cyfarch y galw – mae croeso i chi fynychu unrhyw un o'r ddwy sesiwn, ar ba ddyddiad bynnag sydd fwyaf hwylus.

Bydd y sesiynau hyn drwy gyfrwng y Saesneg ond bydd cyfle i chi gael eich gosod mewn ystafelloedd trafod cyfrwng Cymraeg. [Defnyddiwch y ddolen hon am y dyddiadau ac i gofrestru](#), gan sicrhau eich bod yn nodi os dymunwch gael eich gosod mewn ystafell gyfarfod cyfrwng Cymraeg.

Gweithredu Anghenion Dysgu Ychwanegol - diweddariad Mawrth 2022

[Cliciwch yma](#) i ddarllen am gyllid ychwanegol ar gyfer darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a newidiadau i'r amserlen weithredu ADY.

Dyfodol Byd-eang GwE: leithoedd Rhyngwladol

Am ragor o wybodaeth neu am gymorth gyda'r eitemau isod, cysylltwch â stephanieelliswilliams@gwegogledd.cymru

Canolfan Cefnogaeth GwE: [leithoedd Rhyngwladol – Sector Cynradd](#) a sector Uwchradd: gwybodaeth, arweiniad, cyfleoedd ac adnoddau

Cymraeg: <http://cefnogaeth.gwegogledd.cymru/adnoddau-gwe/pynciau-allgradd-adnoddau-gwe/>

SESIWN WYBODAETH I YSGOLION AR IAITH ARWYDDION PRYDAIN CWRICWLWM I GYMRU - 11 MAI 2022

Manylion llawn ar gael [yma](#). I gofrestru, dilynwch y ddolen [hon](#).

TSIEINËEG I ATHRAWON

26 Ebrill - 28 Mehefin

Manylion llawn [yma](#). Cofrestrwch yma: <https://www.bangor.ac.uk/confucius-institute/online-learning-resources.php.cy>

GWYBODAETH I YSGOLION CYNRADD AC UWCHRADD:

https://www.gwegogledd.cymru/itm_mfl/



Cylchlythyr Gwyddoniaeth Cynradd

[Cliciwch yma](#) am gopi.

GWYBODAETH AC ARWEINIAD LLYWODRAETH CYMRU

Adnodd Cenedlaethol: Gwerthuso a Gwella

Dyma wahoddiad i chi fynychu lansiad swyddogol yr [Adnodd Cenedlaethol: Gwerthuso a Gwella](#) ar 11 Mai, 1:00-1:45pm trwy gyfarfod Teams. Cyflwynir yr adnodd gan Mark Jones o Lywodraeth Cymru ar y cyd â Richard Lloyd o Estyn. Bydd hwn yn gyfle i chi gael trosolwg o'r adnodd ynghyd â gweld sut y'i cyflwynir ar Hwb.

Ymunwch yma: <https://tinyurl.com/AdnoddCenedlaetholLIC>

Fframwaith Drafft ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg Cyfrwng Saesneg

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Miller Research, mewn cydweithrediad ag Ymchwil OB3, i gasglu a dadansoddi adborth ymgynghori ar y fframwaith drafft ar gyfer y Gymraeg mewn ysgolion a lleoliadau cyfrwng Saesneg. Ceir rhagor o wybodaeth am yr ymgynghoriad a'r fframwaith drafft yma: <https://llyw.cymru/fframwaith-drafft-ar-gyfer-y-gymraeg-mewn-addysg-cyfrwng-saesneg>

Cynhelir cyfres o **weithdai ymgynghori rhithiol** ym mis Mawrth, Ebrill a Mai i gofnodi safbwyntiau ar y canllawiau drafft mewn mwy o fanylder.

Os oes gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan yn un o'r gweithdai hyn, cysylltwch â Tom Bajjada am ragor o wybodaeth: tom@miller-research.co.uk

GWYBODAETH GAN GOMISIYNYDD PLANT CYMRU

Dull Hawliau Dynol i Addysg

Mae Comisiynydd Plant Cymru wedi diweddaru'r canllaw ymarferol i leoliadau addysg, 'Y Ffordd Gywir i Addysg', er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchiad o'r dyletswyddau newydd yn y Cwricwlwm newydd i Gymru. Mae'r canllaw diwygiedig, yn ogystal ag adnoddau eraill, ar gael yma: <https://www.complantcymru.org.uk/adnoddau/y-ffordd-gywir-dull-hawliau-plant/dull-gweithredu-seiliedig-ar-hawliau-plant-i-addysg-yng-nghymru/>



**Comisiynydd
Plant Cymru**

Children's
Commissioner
for Wales

GWYBODAETH AC ARWEINIAD GAN ERAILL

Awn am Sero 2030

YMUNWCH Â'R YSGOLION SY'N BRWYDRO YN ERBYN NEWID HINSAWDD.

Rhagor o fanylion i'w cael [yma](https://www.letszero.org/cy/). Cofrestrwch eich ysgol ar www.letszero.org/cy/



Sesiynau Briffio Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol i Arweinwyr Ysgol

Mae'n bleser gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru gyhoeddi rownd newydd o Gynllun arloesol Ysgolion Creadigol Arweiniol.

Mae manylion am y sesiynau briffio ac am sut i wneud cais i gymryd rhan ar gael trwy ddilyn y ddolen hon - <https://arts.wales/cy/newyddion-swyddi-chyfleoedd/sesiynau-briffio-cynllun-ysgolion-creadigol-arweiniol-ar-gyfer>

Dyddiad cau: 5pm 31 Mai 2022.

MA Addysg [Cymru]

PRIFYSGOL GLYNDŴR, WRECSAM

Mae gan Brifysgol Glyndŵr Wrecsam 50 o lefydd wedi'u hariannu'n llawn ar gyfer y rhaglen astudio gyffrous hon. Am ragor o fanylion am y cyfleoedd a ariennir, [cliciwch yma](mailto:K.Smith2@glyndwr.ac.uk) neu cysylltwch â Kelly Smith, Arweinydd y Rhaglen [K.Smith2@glyndwr.ac.uk].

Cwrs ar-lein i gefnogi athrawon newydd gymhwyso (ANG) yng Nghymru

Mae academyddion o Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol yn cynnal [cwrs ar-lein](#) rhad ac am ddim, sy'n cefnogi ANG ac athrawon cyflenwi a sicrhodd statws athro cymwysedig yn ystod Haf 2020 neu 2021.

Am ragor o fanylion ac i gofrestru, [cliciwch yma](#).